

cronfa Ddata Addysg

Rheoliadau newydd ar gyfer awdurdodau lleol
i wneud rhestr o bob plentyn oedran ysgol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc

Helô

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn yng Nghymru gael addysg dda. Rydyn eisiau eu paratoi nhw ar gyfer bywyd a'r dyfodol. Dydyn ni ddim eisiau i unrhyw blentyn fod ar ei gollod.

Y sefyllfa

Mae Deddf Addysg 1996 yn dweud:

bod yn rhaid i awdurdodau lleol (cyngorau) wneud yn siŵr bod pob plentyn yn eu hardal yn cael addysg dda.

Mae hynny'n golygu bod yn rhaid iddyn nhw wybod pa blant sy'n byw yn yr ardal a gwybod am eu haddysg.

Y problem

Yng Nghymru, mae'n rhaid i bob plentyn gael addysg. Ond mae'n gallu digwydd mewn gwahanol ffyrdd:



ysgolion awdurdodau lleol



Mae awdurdodau lleol yn gwybod yn barod am y plant i gyd sy'n mynd i ysgolion y maen nhw'n eu rhedeg.



ysgolion annibynnol



Maen nhw'n gwybod pa blant sy'n mynd i ysgolion annibynnol.



addysg yn y cartref



Maen nhw'n gwybod am blant sydd wedi'u tynnu allan o'r ysgol i'w haddysgu gartref.



Ond efallai dydyn nhw ddim yn gwybod am blant sydd erioed wedi bod yn yr ysgol. Mae hynny oherwydd does dim angen i rieni roi gwybod i awdurdod lleol eu bod nhw'n bwriadu addysgu eu plant gartref.

Yr ateb

Rydyn ni eisiau i awdurdodau lleol sefydlu cronfa ddata o bob plentyn oedran ysgol yn eu hardal nhw.



Rhestr o wybodaeth ar gyfrifiadur ydy cronfa ddata.

Mae'r llyfryn yma'n dweud wrthoch chi am y rheoliadau (rheolau) newydd rydyn ni eisiau eu rhoi ar waith ar gyfer hyn.

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl fel dydyn ni ddim y gadael unrhyw beth pwysig allan.

Ynglŷn â'r gronfa ddata

Rydyn ni eisiau i awdurdodau lleol wneud cronfa ddata newydd gan ddefnyddio gwybodaeth o:



eu hysgolion



ysgolion annibynnol



Byrddau Iechyd Lleol

Mae yna gyfreithiau newydd fel bod byrddau iechyd ac ysgolion annibynnol yn gallu rhannu gwybodaeth ag awdurdodau lleol:

- Rheoliadau drafft Cronfa Ddata Addysg Deddf Plant 2004 (Cymru) 2020
- Rheoliadau drafft Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) Cymru 2020



Bydd Byrddau Iechyd ddim yn rhannu unrhyw wybodaeth feddygol

Defnyddio'r gronfa ddata

Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol i wybod am blant oedran ysgol yn eu hardal nhw.

Gallan nhw ddefnyddio'r wybodaeth i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael addysg. Bydd hefyd yn eu helpu nhw i sylwi ar blentyn sydd ddim yn cael unrhyw addysg a gwneud yn siŵr bod teuluoedd yn cael cynnig help.



Ydych chi'n meddwl y bydd cronfa ddata'n helpu awdurdodau lleol i wybod am blant yn eu hardal nhw?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

Pam?



Os nad oes yna gronfa ddata, beth arall fyddai'n helpu awdurdodau lleol i wybod am blant yn eu hardal nhw?

Sylw

Y wybodaeth

Yr unig wybodaeth a fyddai ar y gronfa ddata fyddai:



Gwybodaeth sylfaenol

- enw a chyfeiriad y plentyn
- rhyw y plentyn
- dyddiad geni'r plentyn
- enw a manylion rhiant



Gwybodaeth addysgol


- enw a manylion yr ysgol y mae'r plentyn yn mynd iddi
- neu lle y mae'r plentyn yn cael addysg 'heblaw yn yr ysgol' a phwy sy'n ei darparu.

Bydd y wybodaeth yma'n cael ei gwirio a'i diweddarau unwaith y flwyddyn.



Cadw gwybodaeth yn ddiogel

Bydd pob awdurdod lleol yn gofalu am ei gronfa ddata ei hun. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid iddyn nhw fod â systemau ar waith i gadw gwybodaeth yn breifat ac yn ddiogel.



Ydych chi'n meddwl mai dyma'r wybodaeth iawn i roi ar y gronfa ddata?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod
Pam?



Ydych chi'n meddwl y dylai gael ei diweddarau bob blwyddyn?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod
Pam?

Diolch am ddarllen hwn

Anfonwch eich atebion trwy e-bost i:

 wellbeingshare@llyw.cymru

Nodwch “**Ymgynghoriad rheoliadau drafft – WG39220**” yn y llinell pwnc.

Neu postiwch nhw i:

 Ymgynghoriad ar Ganllawiau i Reoliadau Drafft
Tîm Cynhwysiant Dysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

 erbyn **22 Ebrill 2020**



Oes yna unrhyw beth arall y mae angen i ni feddwl amdano?



Mae'r iaith Gymraeg yn bwysig i ni.

Ydych chi'n meddwl y bydd hyn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

